YDG CYMRU | ADR WALES

Cip ar Ddata

Hyd digartrefedd yn yr Alban: Faint o amser mae ailgartrefu'n ei gymryd?

Awduron: Dr Ian Thomas (ThomasIR2@Cardiff.ac.uk)
Dr Peter Mackie (Mackiep@cardiff.ac.uk)

Dyddiad: Mai 2021

Mae'r Cip hwn ar Ddata yn archwilio am ba hyd y mae timau tai awdurdodau lleol yn rhoi cymorth tai i aelwydydd digartref yn yr Alban.

Cefndir

Mae Llywodraeth yr Alban yn gosod atal wrth wraidd ein dull o ddod â digartrefedd i derfyni. Fodd bynnag, ni fydd yn bosibl atal digartrefedd rhag digwydd bob amser. Os yw'n digwydd, dylai fod mor fyr â phosiblii. Yn dilyn argymhellion a gyhoeddwyd yn 2018 gan y Grŵp Gweithredu Digartrefedd a Chysgu Allan (HARSAG) iii, a'r Cynllun Gweithredu Lefel Uchel dilynoliv, dechreuodd Llywodraeth yr Alban bontio i ddull 'Ailgartrefu Cyflym' i gynorthwyo aelwydydd sy'n profi digartrefeddv. Nod Ailgartrefu Cyflym yw darparu llety sefydlog mor gyflym â phosibl. Yn fwy diweddar, cafodd yr ymrwymiad i Ailgartrefu Cyflym ei ailbwysleisio a'i gryfhau i ymateb i bandemig COVID-19[vi].

Ar hyn o bryd, prin yw'r data cyhoeddedig am yr amser y mae'n ei gymryd rhwng bod pobl yn troi at yr awdurdod lleol am gymorth ('ceisiadau digartrefedd' yw'r enw arferol ar y rhain) a chael eu symud i lety sefydlog. Mae'r unig ddata sydd ar gael yn rhoi'r amser cyfartalog i ni, mewn diwrnodau, rhwng yr asesiad a chau'r cais.

Canfyddiadau

- Ym 2019/20, roedd ceisiadau ychydig dros 50% o'r holl aelwydydd digartref a gynigiwyd llety sefydlog yn yr Alban wedi cael eu cau mewn llai na 160 diwrnod.
- Cymerodd 11% o geisiadau digartrefedd 500 diwrnod neu fwy i'w cau.
- Roedd amrywiaeth sylweddol rhwng gwahanol awdurdodau lleol, gyda'r cynnig canolrifol am lety'n cymryd rhwng 62 diwrnod (Perth a Kinross) hyd at 779 diwrnod (Midlothian).

Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos ei bod hi'n cymryd amser hir i rai pobl sy'n ddigartref gael cynnig llety sefydlog. Mae hyn yn pwysleisio penderfyniad Llywodraeth yr Alban i symud tuag at ddull Ailgartrefu Cyflym.

Yn achos ceisiadau digartrefedd a gaewyd yn 2019/20, amser cyfartalog yr achos oeddvii. Yn 2019/20, cafodd dros 28,000 o aelwydydd digartref yn yr Alban eu cynorthwyo a chaewyd eu ceisiadauviii. O'r ceisiadau hyn, caewyd 75% ohonynt gyda chynnig llety sefydlog.

Mae'r Cip hwn ar Ddata yn tynnu ar ddata cymedrig gan Lywodraeth Cymru i archwilio'r cyfnod rhwng ceisiadau digartrefedd a chynnig llety sefydlog. Ein nod yw cynnig gwaelodlin i'w ddefnyddio i fesur cynnydd y dull Ailgartrefu Cyflym.

Beth wnaethom ni

Edrychodd yr ymchwil hon ar yr holl bobl sy'n troi at eu hawdurdodau lleol am gymorth digartrefedd a'r amser aeth heibio hyd nes y cynigiwyd 'llety sefydlog' iddynt. Mae llety sefydlog yn cyfeirio at denantiaeth sy'n para o leiaf chwe mis, a ddarperir gan awdurdod lleol, Cymdeithas Tai neu'r sector rhentu preifat. Edrychom ar geisiadau a gaeodd yn 2019/20 ac a ganolbwyntiodd ar 'hyd yr achos', a ddiffinnir fel y cyfnod, mewn diwrnodau, rhwng agor a chau achos.

Mae Llywodraeth yr Alban yn cyhoeddi ffigurau ar hyd cyfartalog cymorth digartrefedd statudol pob achos, ni waeth pam y'u caewyd. Roedd gennym ddiddordeb yn hyd yr achos ar gyfer y rhai sy'n cael cynnig llety sefydlog. I gael dealltwriaeth dda o ddosbarthiad y data, archwiliom y canolrif (neu'r gwerth canol), yr amrediad rhyngchwartel (neu werthoedd sy'n nodi 25% o'r achosion i'r naill ochr a'r llall o'r canolrif), ac uchafswm ac isafswm nifer y diwrnodau.

Gwnaed cais i Lywodraeth yr Alban am:

(1) ddata agregedig yn gysylltiedig â hyd achos ar gyfer yr Alban gyfan. Cafodd data ei grwpio mewn cynyddrannau 20 diwrnod i leihau risg gallu adnabod person, a;

(2) gwybodaeth am ddosbarthiad hyd achosion ar gyfer pob awdurdod lleol (h.y. canolrif, gwybodaeth rhyngchwartel, a gwerthoedd yr uchafswm/isafswm).

Gwneir ceisiadau gan aelwydydd, a allai gynnwys nifer o unigolion

Beth ddarganfuom ni

FMae Ffigur 1 yn dangos dosbarthiad hyd achosion ar gyfer yr Alban gyfan. Caeodd yr achosion hyn yn 2019/20 gyda chynnig llety sefydlog. Y gwerth canolrifol neu'r gwerth canol ar gyfer hyd achos oedd 154 diwrnod. Y gwerth isaf oedd 0 diwrnod a'r uchaf oedd 3,955 diwrnod – bron i 11 mlynedd. Y band hyd achos mwyaf cyffredin (moddol) oedd 40-59 diwrnod.

Ffigur 1: Dosbarthiad hyd achosion ar gyfer achosion a gaewyd gyda chynnig llety sefydlog, wedi'u grwpio mewn cynyddrannau 20 diwrnod, 2019/20



DS: Cafodd echelin-X ei hatal ar 1100-1119 i wella'r gallu i ddehongli'r ffigur

Cafodd ychydig dros hanner (51%) yr holl achosion a gaewyd yn 2019/20 eu datrys mewn llai na 160 diwrnod (Tabl 1). Cafodd ychydig o dan 20% o achosion eu cau mewn llai na 60 diwrnod a chafodd ychydig dros 11% o achosion eu cau mewn llai na 40 diwrnod.

Tabl 1: Dadansoddiad o hyd achosion ar gyfer achosion a gaewyd gyda chynnig llety sefydlog, wedi'u grwpio yn ôl cynyddrannau diwrnodau, 2019/20

	Nifer	%	Cronnus %
0-19 diwrnod	803	4	4
20-39 diwrnod	1,462	7	11
40-59 diwrnod	1,669	8	20
60-79 diwrnod	1,536	8	28
80-99 diwrnod	1,365	7	34
100-119 diwrnod	1,212	6	40
120-139 diwrnod	1,099	6	46
140-159 diwrnod	1,085	5	51
160-199 diwrnod	1,729	9	60
200-299 diwrnod	2,876	14	75
300-399 diwrnod	1,662	8	83
400-499 diwrnod	1,125	6	89
>500 diwrnod	2,251	11	100



Mae Ffigur 2 yn dangos data hyd achosion ar gyfer y 32 awdurdod lleol yn yr Alban. Mae'n cynnwys yr hyd achos cymedrig ar gyfer pob awdurdod, a'r gwerthoedd sy'n cwmpasu 50% yr achosion o gwmpas y canolrif (y 25% i'r naill ochr a'r llall). Roedd cyflymder ailgartrefu yn amrywio'n fawr ar draws awdurdodau, o ganolrif o 62 ddiwrnod yn Perth a Kinross, i hyd at 779 diwrnod ym Midlothian. Roedd hyd achosion cymedrig saith awdurdod lleol yn llai na 100 diwrnod ac roedd 17 arall yn llai na 200 diwrnod. Roedd canolrifau'r wyth awdurdod sy'n weddill yn 200 diwrnod neu fwy.

Gellir esbonio'r gwahaniaethau hyn rhwng awdurdodau lleol yn rhannol trwy gyd-destunau marchnad tai a chyd-destunau daearyddol gwahanol. Er enghraifft, gellir priodoli hyd achos cymharol hir mewn mannau fel Caeredin ac East Lothian i'r marchnadoedd tai cystadleuol iawn. Mewn ardaloedd mwy o faint yn ddaearyddol, fel Ucheldiroedd yr Alban neu Fife, gall gymryd mwy o amser i ddod o hyd i lety mewn ardaloedd y mae gan bobl gysylltiadau â nhw a lle maen nhw'n barod i fyw. Hefyd, mae'n bosibl bod dibynnu ar Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig mewn awdurdodau lleol lle y trosglwyddwyd rheolaeth ar anheddau o'r awdurdod i gymdeithasau tai, fel Dinas Glasgow ac Eilian Siar, yn effeithio ar hyd achosion.

Ffigur 2: Hyd achosion sy'n cynrychioli 50% o'r achosion o gwmpas y canolrif, ar gyfer aelwydydd digartref y cynigiwyd llety sefydlog iddynt, 2019/20; hyd achosion byrraf a hiraf mewn cromfachau



Pam mae'n bwysig

Cymerwyd dros 160 o ddiwrnodau i gau bron i 50% o geisiadau digartrefedd trwy gynnig llety sefydlog. Felly, gan amlaf, nid yw'r cyfnod digartrefedd yn fyr yn yr Alban. Bu'n rhaid i 11% o achosion aros dros flwyddyn a hanner (>500 diwrnod). Mae'r canfyddiad hwn yn atgyfnerthu penderfyniad Llywodraeth yr Alban i fynd ar drywydd dull Ailgartrefu Cyflym yn gyntaf i gynorthwyo aelwydydd digartref, ond mae'n amlygu hefyd fod angen llawer o gynnydd i gyflawni'r uchelgais honno.

Mae'r dadansoddiad newydd hwn yn darparu gwaelodlin ar gyfer mesur cynnydd polisi yn ei erbyn ac, yn fwy uniongyrchol, gallai adrodd ar hyd achosion moddol a chanolrifol yn eu hystadegau digartrefedd fod o fudd i Lywodraeth yr Alban. Gallai achosion sy'n para'n eithriadol o hir gamliwio'r hyd canolrifol sy'n cael ei adrodd ar hyn o bryd.

Beth nesaf

Gall hyd achosion amrywio yn ôl amgylchiadau aelwyd (e.e. cyfansoddiad) yn ogystal â'r problemau a achosodd eu digartrefedd (h.y. ôl-ddyledion rhent neu ffoi cam-drin domestig). Cam nesaf a fwriedir ar gyfer yr ymchwil hon fyddai defnyddio data lefel unigolyn yn hytrach na data agregedig. Trwy ddefnyddio data lefel unigolyn, gallwn gyfrif am amrywiaeth o nodweddion a allai effeithio ar hyd achos.

Mae tystiolaeth o effeithiolrwydd Ailgartrefu Cyflym wrth roi terfyn ar ddigartrefedd yn gyfyngedigix. Trwy ddefnyddio data lefel unigolyn, gallwn hefyd archwilio i ba raddau y gall Ailgartrefu Cyflym leihau digartrefedd mynych. Yn benodol, a yw gostyngiadau yn hyd achosion yn arwain at ganlyniadau mwy sefydlog o ran tai?

Diolchiadau

Mae'r awduron yn ddiolchgar iawn am y sylwadau a gafwyd ar ddrafftiau cynnar y Cip hwn ar Ddata gan Dr. James White (Prifysgol Caerdydd) a chydweithwyr yn y Centre for Homelessness Impact a Llywodraeth yr Alban.

Centre for Homelessness Impact

Cyfeiriadau

[i] https://www.gov.scot/publications/ending-homelessness-together-updated-action-plan-october-2020/

[ii] Downie, M. (2018) Everybody in: How to end homelessness in Great Britain. Llundain: Crisis

[iii] https://www.gov.scot/binaries/content/documents/govscot/publications/factsheet/2018/06/homelessness-and-rough-sleeping-action-group-final-report/documents/hrsag-final-report-june-2018-pdf/hrsag-final-report-june-2018-pdf/govscot%3Adocument/HRSAG%2BFinal%2BReport%2BJune%2B2018.pdf?forceDownload=true

[iv] https://www.gov.scot/binaries/content/documents/govscot/publications/strategy-plan/2018/11/ending-homelessness-together-high-level-action-plan/documents/00543359-pdf/00543359-pdf/govscot%3Adocument/00543359.pdf

[v] Glasgow Homelessness Network (2018) Scotland's transition to Rapid Rehousing, Rapid Rehousing transition plans: Guidance for Local Authorities and Partners. Glasgow: Glasgow Homelessness Network

[vi] https://www.gov.scot/binaries/content/documents/govscot/publications/corporate-report/2020/07/homelessness-and-rough-sleeping-action-group-final-report-tackling-coronavirus/documents/harsag-final-report-on-homelessness-after-coronavirus/harsag-final-report-on-homelessness-after-coronavirus/govscot%3Adocument/200819%2B-HARSAG2%2BCOVID%2Breport.pdf

https://www.gov.scot/binaries/content/documents/govscot/publications/strategy-plan/2020/10/ending-homelessness-together-updated-action-plan-october-2020/documents/ending-homelessness-together-updated-action-plan-october-2020/ending-homelessness-together-updated-action-plan-october-2020/govscot%3Adocument/ending-homelessness-together-updated-action-plan-october-2020.pdf?forceDownload=true

[vii] https://www.gov.scot/publications/homelessness-scotland-2019-2020/

[viii] Ac eithrio aelwydydd lle y collwyd cysylltiad â nhw.

[ix] https://www.homelessnessimpact.org/intervention/rapid-rehousing

Cynhyrchwyd gan YDG Cymru

Gwefan: ADRUK.org
Twitter: @ADR_Wales

Mae YDG Cymru yn dwyn timau arbenigol, arbenigwyr gwyddor data ac ystadegwyr ynghyd fel rhan o ADR UK, a ariennir gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (rhan o UK Research and Innovation). Mae ein tîm yn cynnwys arbenigwyr yn eu maes o Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe, Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru (WISERD) ym Mhrifysgol Caerdydd a Banc Data SAIL ym Mhrifysgol Abertawe, gydag ystadegwyr, economegwyr ac ymchwilwyr cymdeithasol o Lywodraeth Cymru. Gyda'i gilydd, mae YDG Cymru yn datblygu tystiolaeth newydd sy'n cefnogi strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb, er mwyn gwella bywyd pobl yng Nghymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Cathrine.E.Richards@Swansea.ac.uk

Partneriaid YDG Cymru

Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

Swansea University
Prifysgol Abertawe
Medical School
Ysgol Feddygaeth

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

SAIL DATABANK

WISERD
Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru
Wales Institute of Social and Economic Research and Data

ADR UK
Data-driven change

UKRI Economic and Social Research Council